

Y CRIW Mentrus

Cystadleuaeth Ysgolion Cynradd



Llawrlyfr y Gystadleuaeth a Meini Prawf Barnu – 2017/18

Yngylch y gystadleuaeth

Nod Cystadleuaeth Genedlaethol Ysgolion Cynradd y Criw Mentrus - sy'n rhan o raglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid Llywodraeth Cymru - **Syniadau Mawr Cymru** - yw datblygu sgiliau entrepreneuriaidd ymhlith plant mewn ffordd ddifyr a rhyngweithiol.

Mae'n gofyn bod timau o'ch ysgol yn datblygu syniad busnes a'i roi ar waith. Gall fod yn newydd sbon neu'n weithgarwch menter presennol o fewn eich ysgol. Ar yr amod ei fod yn digwydd rhwng 1 Ionawr 2017 a 11 Mai 2018, mae'n gymwys. Gallwch arddangos cyflawniadau'ch disgyblion drwy 2 gategori yn y gystadleuaeth sef y Cyfnod Sylfaen a/ neu Gyfnod Allweddol 2.

Tîm o gymeriadau uwch-arwyr ydy'r Criw Mentrus sy'n ymgorffori ymddygiad entrepreneuriaidd y gwyddom ei fod yn bodoli ymhlith pobl ifanc yng Nghymru. Maent wedi eu seilio ar ein model o Entrepreneuriaeth, sef: Agwedd; Creadigedd; Cysylltiadau a Threfniadaeth. Dyma sylfaen meini prawf y gystadleuaeth.

Camau'r gystadleuaeth

Pedwar cam sydd i'r gystadleuaeth – Caiff pob un ei farnu'n annibynnol gan dîm o feirniaid sy'n arbenigwyr ac yn entrepreneuriaid.

- 1. Cam cyntaf: Bod yn 'Ysgol Fentrus'.** Dwedwch wrthym am y gweithgareddau menter rydych chi'n eu gwneud yn eich ysgol yn barod neu rydych chi'n eu cynllunio am y dyfodol. Byddwn ni'n gwneud yn siŵr y cewch chi'ch amlygu fel 'Ysgol Fentrus' ar wefan Y Criw Mentrus.
- 2. Ail cam: Cyflwyno cais.** Mae pob ysgol yn cael ei gwahodd i gyflwyno un cais am y Cyfnod Sylfaen a / neu un cais am Gyfnod Allweddol 2. Rhaid i bob cais ddod i law erbyn **4pm Mercher 11 Mai 2018**. Ni fydd sgoriau'r beirniaid a roddir yn y rownd gyntaf yn cael eu cario ymlaen i'r Rownd Derfynol Ranbarthol.
- 3. Trydydd cam: Rownd Derfynol Ranbarthol.** Bydd y beirniaid yn sgorio ac yn dewis y ceisiadau gorau i fynd ymlaen i un o'r 4 Rownd Derfynol Ranbarthol. Bydd ysgolion nad ydynt yn ennill lle mewn un o'r Rowndiau Terfynol Rhanbarthol yn ennill **Gwobr Efydd**.

Bydd y Rowndiau Terfynol Rhanbarthol yn digwydd ledled Cymru yn ystod wythnosau **11 ac 22 Mehefin 2018**. Daw'r gystadleuaeth i ben yma ar gyfer ceisiadau'r Cyfnod Sylfaen. Bydd pob ysgol sy'n mynychu'r Rowndiau Terfynol Rhanbarthol yn ennill **Gwobr Arian**.

4. **Pedwerydd cam: Rownd Derfynol Genedlaethol Cymru.** Bydd y Rownd Derfynol Genedlaethol yn achlysur blaenllaw a difyr i ddathlu cyflawniadau'r plant ysgol gynradd yn eu gweithgarwch entrepreneuriaeth. Bydd yr 16 cais uchaf o bob un o'r 5 Rownd Derfynol Rhanbarthol o Gyfnod Allweddol 2 yn symud ymlaen i'r Rownd Derfynol Genedlaethol. Caiff hon ei chynnal yn ystod **wythnos 2 Gorffennaf 2017** mewn lleoliad sydd i'w gadarnhau. Bydd pob ysgol sy'n mynychu'r Rownd Derfynol Genedlaethol yn ennill **Gwobr Aur**. Bydd ysgolion sy'n derbyn Gwobrau yn y Rownd Derfynol Genedlaethol yn ennill **Gwobr Platinwm**.

Rydym am gydnabod disgyblion ac ysgolion ar bob cam o'r daith yn y gystadleuaeth. Fel a amlinellir uchod bydd ysgolion yn ennill Ysgol Fentrus, Gwobrau Efydd, Arian, Aur neu Platinwm ar ffurf tystysgrif a chydabyddiaeth ar Oriol y Criw Mentrus o Gyfranogwyr yn ogystal â thystysgrifau am y disgyblion sy'n cymryd rhan yn y Digwyddiadau Rhanbarthol a Chenedlaethol. (Gofynnir i ysgolion sy'n ennill Gwobr Efydd e-bostio ffotograff i'w gynnwys yn oriel y wefan. Caiff ysgolion sy'n ennill Gwobrau Arian, Aur a Phlatinwm eu ffotograffio yn y digwyddiadau Rhanbarthol / Cenedlaethol gan ffotograffydd proffesiynol).

Yn ogystal â'r Gwobrau Efydd, Arian, Aur neu Platinwm, yn y digwyddiadau Rhanbarthol a Chenedlaethol byddwn yn cyflwyno'r gwobrau dilynol i gydnabod elfennau a chryfderau penodol timau:

- Gwobr Ysbryd Tîm
- Gwobr Standin Arddangos
- Gwobr Ymgysylltu â Busnes
- Gwobr Cysylltiadau â'r Cwricwlwm
- Gwobr ECO Sgolion - **NEWYDD AR GYFER 2017/18**
- Gwobr Seren y Criw – Unigolyn eithriadol
- Gwobr Syniadau Mawr am gynnyrch neu wasanaeth arloesol
- Enillydd Rhanbarthol y Cyfnod Sylfaen a'r Eilion Gorau (Rhanbarthol yn unig)
- Terfynwyr Rhanbarthol Cyfnod Allweddol 2 (Rhanbarthol yn unig)
- Gwobr Cyflwyniad (Cenedlaethol yn unig)
- Wobr Pencampwr yr Athrawon – a enwebir gan y Pennaeth (Cenedlaethol yn unig)
- Enillydd Cenedlaethol a'r Eilion Gorau (Cenedlaethol yn unig)



Ymgeisio yn y gystadleuaeth

Er mwyn cychwyn y cyfan mae'n rhaid i chi ei wneud yw cofnodi manylion eich ysgol ar wefan Y Criw Mentrus os dwedwch chi wrthym am eich gweithgareddau menter ar yr adeg hon byddwn ni'ch eich arddangos fel 'Ysgol Fentrus'. Y dyddiad cau am gwblhau'ch ymgais lawn yw **4pm ar 11 Mai 2018**. Os bydd gennych chi anhawster wrth gofnodi gan ddefnyddio'r wefan, anfonwch e-bost atom ni yn **helo@YCriwMentrus.com**

Ar ôl i ni dderbyn eich cais cychwynnol bydd pecyn yn cael ei anfon at eich ysgol. Bydd y 'Busnes mewn Bocs' yma'n cynnwys deunyddiau cymorth a hyrwyddo i'ch rhoi ar ben y ffordd.

Ystyriwch sut rydych yn cynnal menter o fewn yr ysgol ar hyn o bryd; pa grŵp oedran sy'n cymryd rhan a beth yn eich barn chi fyddai'n gwneud cais da yn y gystadleuaeth. Cofiwch y gallwch gyflwyno 2 gais – un am y Cyfnod Sylfaen ac un am Gyfnod Allweddol 2.

Os cynhaliwch fenter ar draws cwricwlwm yr ysgol ac mewn nifer o grwpiau blwyddyn, mae'n bosib y bydd angen i chi gynnal cystadleuaeth yn yr ysgol i nodi a dewis eich cais buddugol. Beth am ofyn i bobl fusnes leol gymryd rhan mewn helpu i farnu'r ceisiadau!

Oherwydd cyfyngiadau lle, dim ond 4 disgybl a 2 athro a gaiff eu gwahodd i'r Rowndiau Terfynol Rhanbarthol. Ond does dim cyfyngiad ar faint all gymryd rhan yn y fenter.

Mae gwefan **www.YCriwMentrus.com** yn llawn adnoddau i'ch helpu i ddatblygu'ch rhaglen fenter o fewn eich ysgol. Hefyd mae enghreifftiau o brosiectau a gafodd eu cyflwyno gan ysgolion yn y blynyddoedd diwethaf.

Y dyddiad cau am wneud cais yw 4pm ar 11 Mai 2018.

Gall ceisiadau gael eu **llwytho ar-lein**. Byddwch yn gallu dychwelyd i ddiwygio /adio at eich cais gynifer o weithiau ag y dymunwch. Ond bydd angen rhoi'r cyfeiriad e-bost a ddefnyddioch chi i gofrestru am y gystadleuaeth yn ogystal â'ch cyfrinair i fynd at adran hon y wefan. Os cewch unrhyw broblemau, anfonwch e-bost atom i adael i ni wybod yn **helo@YCriwMentrus.com**

Fel arall gallwch lawrlwytho ffurflen gais o'w wefan neu gallwn ni e-bostio'r ffurflen atoch chi. Yna ar ôl llenwi'r ffurflen gallwch ei dychwelyd drwy e-bost. Os nad yw hyn yn bosibl yna gallwch bostio'chi cais neu ddod ag ef atom ni â llaw i:

Y Criw Mentrus, d/o Prospects Cazbah, 15 Cwrt Neifion, Ffordd y Cefnfor, Bae Caerdydd CF24 5PJ



Y broses farnu

Mae'r tabl isod yn dangos beth sy'n ofynnol ar bob cam y broses farnu a pha % o'r sgorau a gaiff eu dyfarnu am bob elfen.

Matrics sgorio	Cyflwyno cais	Stondin arddangos a Chyfweliad	Cyflwyniad
Rownd Gyntaf: Cyflwyno Cais	100%		
Ail Rownd: Rownd Derfynol Ranbarthol		100%	
Trydedd Rownd: Rownd Derfynol Genedlaethol		80%	20%

Caiff **ceisiadau a gyflwynir** eu barnu gan ddefnyddio'r meini prawf isod a chewch wybod a yw'ch cais chi wedi symud ymlaen i un o'r Rowndiau Terfynol Rhanbarthol erbyn **25 Mai 2018**.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus bydd yn symud ymlaen i un o'r 5 Rownd Derfynol Ranbarthol a gaiff eu barnu'n annibynnol. Cofiwch, ni fydd sgoriau'r beirniaid a roddir yn y rownd gyntaf yn cael eu cario ymlaen i'r Rownd Derfynol Ranbarthol.

Yn y Rowndiau Terfynol Rhanbarthol a Chenedlaethol caiff 4 disgybl, yng nhwmni 2 oedolyn, eu gwahodd i fynychu digwyddiadau ac i arddangos eu gwaith.

Bydd y **Stondin Arddangos a'r Cyfweliad** yn gyfle i ddisgyblion arddangos eu gwaith. Bydd pob tîm yn cael bwrdd arddangos 6 phanel a phadiau Velcro i atodi eitemau at y paneli - 1874mm o uchder x 2063mm o led, soced trydan a bwrdd.

Bydd y beirniaid yn ymweld â phob stondin arddangos ac yn cyfweld ag aelodau'r tîm i ddysgu mwy am eu cais ac i sgorio ceisiadau yn erbyn y meini prawf a welir isod.

Bydd y ffocws ar ddysgu a mwynhau, heb osod pwysau diangen ar y disgyblion. Yn ystod y dydd bydd gan y disgyblion gyfle i ymweld â stondinau ei gilydd, cymryd rhan mewn gweithgareddau gweithdy sy'n gysylltiedig â menter a bydd y Criw Mentrus wrth law i sicrhau bod diddordeb y disgyblion yn cael ei gynnal drwyddi draw.

Yn y Rownd Derfynol Genedlaethol (Cyfnod Allweddol 2 yn unig) gofynnir i bob tîm roi **cyflwyniad** 2 funud i'r beirniaid, y gwsteion gwadd a'r timau sy'n cymryd rhan yn y rownd derfynol.

Caiff offer ei ddarparu ar gyfer dangos cyflwyniadau fideo, sain a Powerpoint os oes angen. Gall cyfarpar gweledol arall gael ei ddefnyddio hefyd os yw'n well gennych chi.



Dylai cyflwyniad y disgyblion amlinellu pa weithgarwch menter a ddigwyddodd, pam wnaethon nhw ddewis y gweithgarwch yma, pa sgiliau gafodd eu dysgu a'u datblygu a beth aeth yn dda a beth ddim cystal.

Ar bob cam y gystadleuaeth bydd marciau'n cael eu dyfarnu yn erbyn y meini prawf isod. Atebwch bob maes yn eich cais cychwynnol er mwyn uchafu'ch sgor ar y cam hwn. Nid yw marciau'n cael eu dwyn yn eu blaen i'r Rowndiau Terfynol Rhanbarthol a Chenedlaethol - mae pob cam yn cael ei farnu'n annibynnol.

I ysgolion sy'n ennill lle yn y Rownd Derfynol Genedlaethol mae cyfle i'r Pennaeth enwebu athro am "Wobr Pencampwr yr Athrawon". Darn ysgrifenedig heb fod yn fwy na **300** o eiriau yw hwn i amlygu cyfraniad athro / athrawes unigol at ddatblygu'r ysbryd entrepreneuriaidd o fewn yr ysgol. Mae angen tystiolaeth o'u cyflawniadau drwy enghreifftiau a chanlyniadau. Caiff y wobr yma ei hasesu'n genedlaethol a'i dyfarnu yn y Rownd Derfynol Genedlaethol.



Meini prawf asesu

Ymddygiadau allweddol menter	Meysydd / cwestiynau enghreifftiol Sut caiff hyn ei asesu?	Marciau a ddyfernir ar bob cam		
		Cyflwyno cais	Rownd Derfynol Ranbarthol	Rownd Derfynol Genedlaethol
<p>Agwedd Tystiolaeth o ddealltwriaeth disgyblion o'u hunain, eu cryfderau a'u cymhellion. Yn dangos yr ymddygiad canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Hunan-wybodaeth, cred a hyder Cymhelliant Dyhead Penderfyniad Cystadleurwydd 	<ul style="list-style-type: none"> Sut cynhaliodd y disgyblion eu cymhelliant? Sut wnaeth y disgyblion ymdopi â sefyllfaoedd anodd? Sut wnaeth y fenter datblygu hyder a hunan-ymwybyddiaeth disgyblion? Sut wnaeth y disgyblion bennu beth roeddent eisiau ei gyflawni? Sut wnaeth y tîm wella eu dealltwriaeth o weithgarwch entrepreneuriaidd yn ystod y gweithgaredd? Sut wnaeth gwerthoedd y tîm dros yr amgylchedd, cymuned a busnes siapio eu penderfyniadau? Sut wnaeth y gystadleuaeth helpu'r tîm gyda gwaith ysgol arall a chysylltiadau â'r cwricwlwm? 	/20	/20	/15



Ymddygiadau allweddol menter	Meysydd / cwestiynau enghreifftiol Sut caiff hyn ei asesu?	Marciau a ddyfernir ar bob cam		
		Cyflwyno cais	Rownd Derfynol Ranbarthol	Rownd Derfynol Genedlaethol
<p>Creadigedd Tystiolaeth o'r gallu i eneradu syniadau newydd, datrys problemau a sylwi ar gyfleoedd newydd. Yn dangos yr ymddygiad canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> Datrys problemau Meddwl yn ddargyfeiriol / creu syniadau Sylwi ar syniadau newydd a'u creu Arloesedd 	<ul style="list-style-type: none"> Sut wnaeth y tîm ddewis eu cynnyrch neu eu gwasanaeth? Ydy'r cynnyrch neu'r gwasanaeth yn arloesol, ac os felly sut? Sut cafodd y cynnyrch neu'r gwasanaeth ei hyrwyddo i ddenu cwsmeriaid? Sut wnaethon nhw werthu eu cynhyrchion neu wasanaethau? Unrhyw dechnegau gwerthu arloesol? Sut wnaeth y tîm ddatrys y broblem fwyaf a wynebant yn ystod y gweithgaredd? A gyfathrebodd y tîm ansawdd eu cynnyrch neu wasanaeth yn effeithiol, a sut? Ydy'r fenter yn gwneud newid amgylcheddol positif i ysgol a chymuned ehangach yr ysgol? 	/20	/20	/15



Ymddygiadau allweddol menter	Meysydd / cwestiynau enghreifftiol Sut caiff hyn ei asesu?	Marciau a ddyfernir ar bob cam		
		Cyflwyno cais	Rownd Derfynol Ranbarthol	Rownd Derfynol Genedlaethol
<p>Cysylltiadau Mae hyn yn ymwneud â phobl, y gallu i gyfathrebu'n effeithiol, mynegi eich barn a'ch syniadau eich hun, gwerthfawrogi safbwynt pobl eraill a gweithio'n gydweithredol. Yn dangos yr ymddygiad canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweithio gydag eraill • Rheoli sefyllfaoedd anodd • Negodi, perswadio a dylanwadu • Cyflwyno • Cyfathrebu 	<ul style="list-style-type: none"> • Sut wnaeth y tîm chwilio am bartneriaethau â busnes lleol, rhieni ac eraill i gefnogi eu busnes? • Pa mor dda wnaeth aelodau'r tîm gydweithio? • Sut wnaeth holl aelodau'r tîm ddeall eu rolau yn y busnes? • Sut wnaeth y busnes gyfathrebu â chwsmeriaid a phartneriaid ac a oedd yn effeithiol? • A wnaeth y tîm wrando ar safbwyntiau aelodau eraill a phobl tu allan i'r tîm? 	/20	/20	/15



Ymddygiadau allweddol menter	Meysydd / cwestiynau enghreifftiol	Marciau a ddyfernir ar bob cam		
	Sut caiff hyn ei asesu?	Cyflwyno cais	Rownd Derfynol Ranbarthol	Rownd Derfynol Genedlaethol
<p>Trefniadaeth Gwneud penderfyniadau gwybodus a chyflawni eich amcanion drwy gynllunio a rheoli sefyllfaoedd, adnoddau a risg. Yn arddangos yr ymddygiad canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynllunio • Rheoli adnoddau • Gwneud penderfyniadau • Ymchwilio a deall yr amgylchedd • Rheoli risg • Pennu gweledigaeth a nodau 	<ul style="list-style-type: none"> • Sut wnaeth y tîm gynllunio eu menter? Oedd nodau clir ar gyfer y busnes? • Sut wnaeth y tîm gynnal ymchwil i'r farchnad a'i defnyddio i ddatblygu eu busnes? • Sut wnaeth y tîm ddyrannu rolau a chyfrifoldebau? • Sut wnaeth y tîm godi arian i gychwyn a rheoli eu harian? • A wnaeth y tîm elw? Beth ddysgodd y tîm am reoli arian? • Ansawdd y cyflwyniad. Ydy'r cyflwyniad yn ennyn diddordeb ac yn ddifyr? 	/20	/20	/15



Ymddygiadau allweddol menter	Meysydd / cwestiynau enghreifftiol Sut caiff hyn ei asesu?	Marciau a ddyfernir ar bob cam		
		Cyflwyno cais	Rownd Derfynol Ranbarthol	Rownd Derfynol Genedlaethol
Yn gyfan gwbl	<ul style="list-style-type: none"> Dwedwch wrthym ni pam y credwch fod eich ysgol chi'n haeddu ennill cystadleuaeth Gynradd y Criw Mentrus 	/20		
Busnes	<ul style="list-style-type: none"> Sut wnaeth y tîm nodi a mynd ati i ymgysylltu â phartneriaid busnes? Pa ran gymerodd y busnes yn yr ymagwedd gyffredinol at fenter? 		/10	/10
Stondin arddangos	<ul style="list-style-type: none"> Ydy'r arddangosiad yn hybu gweithgarwch y fenter mewn ffordd greadigol ac arloesol? Beth yw ansawdd cynhyrchion a gafodd eu cynhyrchu? 		/10	/10



Ymddygiadau allweddol menter	Meysydd / cwestiynau enghreifftiol Sut caiff hyn ei asesu?	Marciau a ddyfernir ar bob cam		
		Cyflwyno cais	Rownd Derfynol Ranbarthol	Rownd Derfynol Genedlaethol
Cyflwyniad	<ul style="list-style-type: none"> • Ydy'r cyflwyniad wedi ei gynllunio a'i strwythuro'n dda? • Ydy'r cyflwyniad yn ennyn diddordeb ac yn ddifyr? • Ydy'r cyflwyniad yn dangos dysgu'r disgyblion a'u brwdfrydedd am eu menter 			/20
CYFANSWM		100	100	100

